



AWTTC

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Mewn Ffocws

Gwanwyn 2022 – Rhifyn 17

Cylchlythyr Gwanwyn AWTTC

Cylchlythyr Gwanwyn AWTTC Diweddariad chwarterol sy'n cynnwys y newyddion a'r mewnwelediadau diweddaraf gan ein tîm amlddisgyblaethol.

Yn y rhifyn hwn

Newyddion Ionawr – Mawrth 2022 ynghylch:

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd a chydlynu allbynnau IPFR
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
Dadansoddi data presgripsiynu a datblygu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
Darparu cyngor ar wenwynau 24 awr y dydd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau



Cynhaliwyd digwyddiad cydweithredol addysgol gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) Cymru ar 20 Ionawr a oedd yn cynnwys pedwar cyflwyniad byr gan AWTTC ynghyd â sesiwn holi ac ateb.

Ymhlith y siaradwyr roedd Shaila Ahmed, Fferylllydd yn AWTTC a gyflwynodd ar atalyddion cyd-gludwyr sodiwm-glwcos-2 (SGLT2) mewn diabetes math 2 a chlefyd cardiofasgwlaidd. Rhoddodd Dr Tessa Lewis, Meddyg Teulu a Chynghorydd Meddygol, ddiweddariad therapiwtig ar osgoi defnyddio nitrofurantoinwrth drin pyelonephritis.

Nesaf i siarad oedd Dr Laurence Gray, Meddyg Ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Gwnaeth Dr Gray gyflwyniad ar alergedd i Benisilin - nid diagnosis anfalaen! Dr Robert Bracchi, Cynghorydd Meddygol yn AWTTC, oedd yr olaf i siarad a rhoddodd y newyddion diweddaraf gan AWTTC.

Dyma'r cyntaf o'r hyn a fydd, gobeithio, yn gyfres o weminarau i annog ymgysylltiad gan feddygon teulu ac yn rhoi cyfle i drafod dwyffordd.

**AWTTC**All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Cofiwch y dyddiad ar gyfer ein cynhadledd yn dathlu 20^{fed} pen-blwydd yr AWMMSG

Mae'n anodd credu bod 20 mlynedd ers sefydlu AWMMSG, mae'r amser wedi hedfan. Cofiwch y dyddiad a dewch i ddathlu gyda ni ar 17 Tachwedd 2022 yn Stadiwm Dinas Caerdydd lle bydd llu o siaradwyr diddorol a chydweithwyr hen a newydd yn ymuno â ni i nodi'r achlysur arbennig hwn.

Cadwch lygad ar [ein gwefan](#) am fwy o wybodaeth am sut i gofrestru.

**AWTTC**All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Cyfarfod Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) – 18 Mawrth

Mawrth 2022

Cynhaliwyd y Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) diweddaraf, sy'n parhau i gael ei gynnal yn rhithwir, ar 18 Mawrth ac roedd yn canolbwyntio ar gyfranogiad cleifion a phwysigrwydd llais y claf.

[Darllenwch ragor yma](#)

**AWTTC**All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Diwrnod Arfer Gorau Gorffennaf 2022

Cofiwch y Dyddiad – byddwn yn cynnal Diwrnod Arfer Gorau ar y pwnc 'Datgarboneiddio: yr agenda feddyginiaethau' ar 19 Gorffennaf 2022 ar Zoom.

Am y tro cyntaf, bydd y digwyddiad ar-lein hwn hefyd yn gwahodd aelodau o'r grŵp PAPIG i gymryd rhan. Bydd y diwrnod yn canolbwyntio ar amlygu'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud i optimeiddio meddyginiaethau yng Nghymru, ac yn rhoi cyfle i'r sawl sy'n bresennol ofyn unrhyw gwestiynau a rhannu arfer gorau.

Cadwch lygad ar [ein gwefan](#) am fwy o wybodaeth am sut i gofrestru.

**AWTTC**
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Diwrnod Arfer Gorau AWTTC

19 Gorffennaf 2022 9.30 y.b. tan 1.00

Datgarboneiddio: yr agenda feddyginiaethau



Cofrestru'n agor yn fuan!
Cadwch lygad ar cttcg.gig.cymru



Diwrnodau Agored y Diwydiant Fferyllol

Mawrth 2022

Yn dilyn llwyddiant rhaglen diwrnod agored 2021, ddydd Iau 3 Mawrth cyflwynodd AWTTC ei ddiwrnod agored fferyllol cyntaf ar gyfer 2022. Daeth mwy na 50 o gynrychiolwyr i'r sesiwn a oedd yn rhoi trosolwg ar sut y gall cleifion yng Nghymru gael gafael ar feddyginiaethau ac amlygodd bwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar.

Dechreuodd y sesiwn gyda chwis rhyngweithiol a gafodd dderbyniad da iawn a helpodd i gyflwyno rhai o'r pynciau a drafodwyd yn y cyflwyniad. Siaradodd y tîm yn gryno am broses technoleg iechyd AWMSG a'r gronfa driniaeth newydd. Soniwyd hefyd am broses Cymru'n Un; proses cyflenwi meddyginiaethau Cymru gyfan yn rhad ac am ddim (FOC) a cheisiadau cyllido cleifion unigol (IPFR).

Clywodd y gynulleidfa sut mae Cymru yn prosesu trefniadau masnachol a sut y gallant gefnogi'r tîm mynediad at feddyginiaethau masnachol i helpu i sicrhau bod meddyginiaethau newydd yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon i bobl sy'n byw yng Nghymru. Daeth y sesiwn i ben gyda chrynodeb ar system weinyddol cynllun mynediad i gleifion Blueteq a diweddariad ar ddyfodol system cyffuriau cost uchel Blueteq.

Mae AWTTC yn edrych ymlaen at gyflwyno'r sesiwn nesaf ddiwedd mis Mehefin.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i wyllo cyfarfodydd blaenorol, [ewch i'r wefan](#).

**WAPSU**Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Dangosfwrdd newydd i helpu GIG Cymru i leihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â defnyddio anadlyddion

Ionawr 2022

Mae Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU), sy'n rhan o Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), wedi datblygu [dangosfwrdd](#) i adrodd ar gynnydd o ran lleihau ôl troed carbon anadlyddion a ddefnyddir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.

Darllenwch ragor yma: Mae'r ddau adroddiad cyntaf hefyd ar gael [i'w darllen yma](#).

**WAPSU**Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2022-2023: Gwybodaeth ategol ar gyfer rhagnodwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

Chwefror 2022

Crynodeb cryno o'r Genedlaethol Dangosyddion Rhagnodi ar gyfer 2022-2023 wedi'i gyhoeddi, yn cynnwys trosolwg cryno o bob NPI, gan gynnwys diben, unedau mesur, rhesymeg fer a phwyntiau rhagnodi, a dolenni i defnyddiol adnoddau.

[Darllenwch fwy yma](#).

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2021-2022: Dadansoddiad o Ddata Rhagnodi i Medi 2021

Chwefror 2022

Mae Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPIs) ar gyfer 2021-2022 yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd, gan ganolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth:

- Poenliniarwyr mewn gofal sylfaenol
- Gwrthgeulyddion mewn ffibriliad atrïaidd
- Stiwardiaeth gwrthficrobaidd

[Darllenwch fwy yma.](#)WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Cyngor Cymru gyfan ar wrthgeulo geneuol ar gyfer ffibriliad atrïaidd di-falfaidd

Chwefror 2022

Wedi'u cyhoeddi'n flaenorol ym mis Mawrth 2020 mae'r canllawiau hyn wedi'u diweddarau i adlewyrchu newidiadau yng nghanllawiau NICE.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys offeryn asesu risgiau/buddion, a chrynodeb un dudalen ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd yng Nghymru.

[Darllenwch ragor yma](#)WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol

Mawrth 2022

Datblygwyd y canllaw hwn i roi cyngor cynhwysfawr ar reoli cyffuriau gwrthficrobaidd ar gyfer heintiau cyffredin mewn gofal sylfaenol, gan ystyried data rhagduddiad pathogenau lleol a gwrthficrobaidd yng Nghymru.

[Darllenwch fwy yma.](#)WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Archwiliad Cenedlaethol CEPP - Canolbwyntio ar bresgripsiynu gwrthfotigau

Mawrth 2022

Nod yr archwiliadau yw hyrwyddo presgripsiynu gwrthfotigau yn unol â'r canllawiau presennol; gan gynnwys y Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol a gymeradwyir gan AWMMSG.

[Darllenwch fwy yma.](#)WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Rheoli heintiau'r llwybr wrinol symptomatig rheolaidd ymhlith merched sy'n oedolion

Mawrth 2022

Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at yr holl staff meddygol, nyrsio a fferylliaeth cymunedol ac anarbenigol sy'n ymwneud â phresgripsiynu a rheoli heintiau'r llwybr wrinol (UTI) rheolaidd. Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu ar gyfer menywod nad ydynt yn feichiog, heb gathetr, 16 oed a hŷn.

[Darllenwch fwy yma.](#)

**PAMS**
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

Cyngor newydd ar feddyginiaethau i GIG Cymru

Ionawr – Mawrth 2022

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo argymhellion gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan ynghylch chwech feddyginiaethau rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2022.

- Cyngor mis Chwefror ar Feddyginiaethau Newydd
[- Darllenwch fwy yma.](#)
- Cyngor mis Mawrth ar Feddyginiaethau Newydd
[- Darllenwch fwy yma.](#)

**WAPSU**
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Rheoli haint *Clostridioides difficile* yng Nghymru.

Mawrth 2022

Mae'r canllawiau hyn yn darparu strategaeth rhagnodi gwrthficrobaidd hygyrch sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli haint *Clostridioides difficile* (CDI) mewn oedolion.

[Darllenwch ragor yma.](#)**PAMS**
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

Lansio offeryn mynediad ILAP HTA Newydd

Mawrth 2022

Mae offeryn fforwm mynediad HTA newydd i gefnogi datblygwyr i ddod â meddyginiaethau arloesol i'r farchnad yng Nghymru, Lloegr a'r Alban drwy'r Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol (ILAP) wedi'i lansio.

[Darllenwch fwy yma](#)
(Saesneg yn unig).**WNPU**
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

Dr John Thompson yn ymddeol: Cydweithiwr arbennig

Mawrth 2022

Ar ddiwedd mis Mawrth, ymddeolodd Dr John Thompson o Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU) ac mae'n briodol nid yn unig i gydnabod ei gyfraniad i Docsicoleg, ond hefyd i gydnabod cydweithiwr a ffrind arbennig.

[Darllenwch fwy yma.](#)**WNPU**
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

Yn dod i fyny – Cwrs Tocsicoleg Meddygol. Cofrestrwch nawr 7 – 8 Hydref 2022

Bydd Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU) yn cynnal eu cwrs Tocsicoleg Feddygol blynyddol yng Caerdydd.

[Darllenwch fwy yma.](#)

Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyrau yn y dyfodol a darllenwch ein cylchlythyrau blaenorol [yma](#)

I ddarllen newyddion diweddaraf AWTTC dilynwch: [@AWTTCcomms](#) | [@AWTTCymraeg](#)

I roi adborth neu i ymuno â rhestr bostio AWTTC, e-bostiwch: awttc@wales.nhs.uk